## Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

—

## Standards of Conduct Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

At: Holl Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Mai 2013

Annwyl Gyfaill

**Adroddiad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol – Rheolau Newydd ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol a Chod Ymarfer ar Weithgarwch Lobïo**

Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dilyn ymchwiliad i drefniadau'r Cynulliad mewn cysylltiad â gweithgarwch lobïo. Gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo rheolau newydd, llymach ar gyfer y ffordd mae Grwpiau Trawsbleidiol yn gweithredu, mewn Cyfarfod Llawn, ynghyd â chanllawiau cyffredinol i Aelodau ynghylch cysylltiad â lobïwyr. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn yw 26 Mehefin.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 2 Mai ac mae ar gael ar y wefan:
www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=231

Os cânt eu cymeradwyo, ni fyddai'r Rheolau newydd ar gyfer Grŵpiau Trawsbleidiol yn dod i rym tan ddechrau tymor yr hydref, sef dydd Llun 23 Medi. Rwyf wedi ysgrifennu at Gadeiryddion yr holl Grwpiau Trawsbleidiol i'w

Y Pwyllgor Safonau Ymddygia
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
—
E-bost: Safonau@cymru.gov.uk
Ffôn: 029 2089 8429

Standards of Conduct Committee
Committee Service
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
—
Email: Standards.Committee@wales.gov.uk
Phone: 029 2089 8429

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rwy'n croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay
—
We welcome correspondence in both English and Welsh. I welcome calls from people using the Text Relay service

hysbysu y bydd staff Comisiwn y Cynulliad yn cysylltu â hwy ar ôl mis Mehefin i ddarparu gwybodaeth bellach am oblygiadau ymarferol y rheolau, ac i sicrhau bod gan y grwpiau yr offer, y canllawiau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt cyn i'r rheolau ddod i rym.

Cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, atodaf bapur briffio sy'n crynhoi'r prif newidiadau a gaiff eu cynnig, ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl iddynt. Gobeithio y bydd hyn o ddefnydd i chi.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynnwys y rheolau a'r canllawiau newydd hyn yn ofalus. Y bwriad yw sicrhau'r tryloywder ac atebolrwydd uwch a ddisgwylir gan y cyhoedd, heb gyflwyno mesurau sy'n llethu gormod ar Aelodau. Rydym wedi argymell hefyd y caiff y trefniadau hyn eu hadolygu eto cyn diwedd y Cynulliad hwn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Buaswn yn fodlon trafod yr adroddiad gydag unrhyw Aelos os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC / AM**
Cadeirydd / Chair

Amg: Papur briffio: Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol - Canllawiau a Rheolau'r Cynulliad

CC: Rosemary Butler AC, Llywydd
Gerard Elias QC, Y Comisiynydd Safonau